# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 7 Mawrth 2017

Amser: 09.06 - 09.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3946

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mike Hedges AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Simon Thomas AC (yn lle Neil McEvoy AC) |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Kayleigh Driscoll (Dirprwy Glerc)<br>Kath Thomas (Dirprwy Glerc) |

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 273KB) Gweld fel HTML (99KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd Janet Finch-Saunders wedi anfon ei hymddiheuriadau. Roedd Simon Thomas yn bresennol yn lle Neil McEvoy.

## 2 Deisebau newydd

### 2.1 P-05-742 Peidiwch â gadael i Forsythia gau!

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf ac, yn sgil datganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn cadarnhau y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei ddileu'n raddol, cytunwyd y dylid ysgrifennu ato i ofyn:

- sut y mae'n bwriadu cefnogi cynlluniau a phrosiectau llwyddiannus Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol; ac
- a fydd parhau i fuddsoddi yn y rhaglenni Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn cefnogi cynaliadwyedd canolfannau ieuenctid fel Forsythia.

Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ystyried cynnwys datganiad sydd i ddod gan y Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ar ddyfodol darpariaeth gwaith ieuenctid.

### 2.2 P-05-743 Rhowch Derfyn ar Fasnachu Anifeiliaid Anwes Egsotig yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i godi cwestiynau penodol a ofynnwyd gan y deisebydd, a gofyn bod y Pwyllgor yn cael gwybod am ganlyniad y drafodaeth yn y Grŵp Fframwaith Iechyd a Lles Anifeiliaid Cymru.

### 2.3 P-05-744 Atal Gasympio; Dilyn y Broses Brynu yn yr Alban

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb am y tro cyntaf a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- cau'r ddeiseb o ganlyniad i'r eglurder ychwanegol am gadw pwerau'n ôl yn y maes hwn i Senedd y DU a ddarparwyd gan Ddeddf Cymru 2017; ac
- ysgrifennu at y deisebydd i awgrymu ei fod yn ystyried cyflwyno deiseb i Senedd y DU ac ysgrifennu at Adran Llywodraeth y DU ar gyfer Cymunedau a Llywodraeth Leol ar y mater.

## 3 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

### 3.1 P-04-475 Yn eisiau – Bysiau i Feirionnydd

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail nad yw'n bosibl i fwrw ymlaen â'r mater o ystyried yr anhawster o ran cysylltu â'r deisebydd, a'r ffaith bod y ddeiseb wedi cael ei hystyried fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Fysiau a Chludiant Cymunedol yn y Pedwerydd Cynulliad.

### 3.2 P-04-513 Achub gwasanaeth bws X94 Wrecsam/Abermo

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb yn wyneb y ffaith bod y gwasanaeth X94 wedi cael ei ddisodli gan y gwasanaeth T3 a weithredir gan ddarparwr gwahanol, a diolch i'r deisebydd am godi'r mater hwn.

### 3.3 P-04-515 Darparu rhagor o arian ar gyfer Gwasanaethau Bysiau Cymru

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail nad yw'n bosibl i fwrw ymlaen â'r mater o ystyried yr anhawster o ran cysylltu â'r deisebydd, a'r ffaith bod y ddeiseb wedi cael ei hystyried fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Fysiau a Chludiant Cymunedol yn y Pedwerydd Cynulliad.

### 3.4 P-04-686 Dylid Gosod System Goleuadau Traffig yng Nghylchfan Cross Hands

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb ar y sail nad yw'n bosibl nodi sut i fynd â'r ddeiseb ymlaen yn absenoldeb y cysylltiad gyda'r deisebwr.

### 3.5 P-05-729 Cael Gwared ar Gyfyngiadau Cyflymder ar yr M4 wrth Dwnelau Bryn-glas

Ystyriodd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i gau'r ddeiseb ac, wrth wneud hynny, ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Seilwaith i ofyn iddo roi gwybod i'r Pwyllgor am ganfyddiadau'r adolygiad arfaethedig ar ôl i 12 mis o ddata gael eu casglu o orfodi'r Terfyn Cyflymder Newidiol.

### 3.6 P-05-733 Dim gweithredu pellach ar Barthau Perygl Nitradau (NVZ) yng Nghymru o gwbl

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, i rannu sylwadau'r deisebwr, a gofyn a yw asesiad effaith rheoleiddiol ar effaith economaidd a chymdeithasol y cynigion wedi cael ei wneud, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried dulliau amgen; ac
- aros am gyhoeddiad ynghylch camau gweithredu arfaethedig Llywodraeth Cymru ar ôl yr ymgynghoriad.

### 3.7 P-04-532 Gwella Gwasanaethau Niwrogyhyrol Arbenigol yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon i ofyn a oes modd rhoi'r sicrwydd i'r deisebwyr y maent yn ei geisio ynghylch:
  - a yw fforwm gwneud penderfyniadau cenedlaethol gydag adnoddau yn ddigon ymwybodol o'r risgiau gwasanaeth ac yn pennu blaenoriaeth wybodus i'r sefyllfa; a
  - bod gwasanaethau niwrogyhyrol yn cael eu cynnwys o fewn cwmpas yr adolygiad cenedlaethol o niwrowyddorau yng Nghymru sy'n cael ei arwain gan WHSSC
- ysgrifennu at yr holl Fyrddau Iechyd Lleol i gael eu barn ar y materion a godwyd gan y ddeiseb.

### 3.8 P-04-570 Argaeledd Anghyfartal o Ran Triniaethau Nad Ydynt Wedi'u Harfarnu'n Genedlaethol Gan GIG Cymru

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth ynghylch y ddeiseb a chytunodd i aros am ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar yr adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y broses Cais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR) a gofyn am farn y deisebwyr eto ar y pwynt hwnnw.

### 3.9 P-05-699 Cronfa Driniaeth i Gymru - rhaid dod â'r Loteri Cod Post ynghylch Iechyd i ben

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- cau'r ddeiseb ar y sail nad yw'n bosibl nodi sut i fynd â'r ddeiseb ymlaen yn absenoldeb cysylltiad gyda'r deisebwr; ac wrth wneud hynny
- aros am ddatganiad Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon ar yr adolygiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y broses Cais Cyllido Cleifion Unigol (IPFR), a'i anfon ymlaen at y deisebydd er gwybodaeth.

### 3.10 P-05-693 Rhowch y Brechlyn Llid yr Ymennydd B i Bob Plentyn yng Nghymru am ddim

Trafododd y Pwyllgor yr ohebiaeth a gafwyd ynghylch y ddeiseb a chytunodd ar y camau a ganlyn:

- ysgrifennu at y Gweinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd i rannu'r wybodaeth a dderbyniwyd gan Meningitis Now a'r Sefydliad Ymchwil Llid yr Ymennydd a gofyn a yw tystiolaeth bellach gan y JCVI wedi cael ei hystyried gan Lywodraeth Cymru ers yr ohebiaeth flaenorol ym mis Awst 2016, yn enwedig mewn perthynas â brechu plant hyd at 2 oed, a rhwng 3 a 5; ac
- ceisio barn y deisebwr eto ar yr holl ohebiaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd ar y pwynt hwnnw.

### 3.11 P-04-481 Cau'r bwlch ar gyfer disgyblion byddar yng Nghymru

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes i ofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am y pryderon a'r cwestiynau a godwyd gan y deisebwyr.

### 3.12 P-05-704 Dod ag Arholiadau mis Ionawr yn ôl ar gyfer Myfyrwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol

Trafododd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail nad yw'n bosibl nodi sut i fynd â'r ddeiseb ymlaen yn absenoldeb cysylltiad gyda'r deisebwr.

### 3.13 P-05-722 Diogelu Anghenion Addysgol Arbennig

Trafododd y Pwyllgor y ddeiseb a chytunodd i:

- cysylltu â'r deisebydd i ofyn am ei farn ar yr ohebiaeth ddiweddaraf; ac
- ysgrifennu i Gyngor Castell-nedd Port Talbot i ofyn iddynt fynd i'r afael â'r sylwadau penodol a wnaed gan y deisebydd am ei phrofiadau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau cymorth yn ardal y cyngor.

### 3.14 P-04-439 Diogelu coed hynafol a choed treftadaeth Cymru ymhellach

Trafododd y Pwyllgor ohebiaeth a chytunodd i gau'r ddeiseb, o ystyried bod y deisebwyr yn aelodau o'r grŵp Gorchwyl a Gorffen sydd wedi gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru, ac ymrwymiad Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ystyried pa gamau i'w cymryd ymlaen.

### 3.15 P-04-681 Caniatáu i'r Cyhoedd Recordio Cyfarfodydd Llywodraeth Leol yng Nghymru

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb oherwydd y cadarnhad a dderbyniwyd oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar ei fwriad i wneud darlledu cyfarfodydd Cynghorau yn ofyniad statudol.

### 3.16 P-05-730 Cyllid ac Ariannu Llywodraeth Leol

Cytunodd y Pwyllgor i gau'r ddeiseb ar y sail bod gan y deisebwyr ar hyn o bryd gyfle i roi eu barn o ran datblygu cynigion ar ddiwygio llywodraeth leol, ac nad oes fawr o werth pellach y gall y Pwyllgor Deisebau gynnig ochr yn ochr â'r broses honno.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Adolygiad o System Ddeisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rhoddodd Clerc y Pwyllgor ddiweddariad i'r Aelodau ar gyflwyno newidiadau posibl i System Deisebau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.